



Cynllun Gwenyn Iach 2030

Cynllun Gweithredu

Hydref 2021



*Llun y clawr: Chwilio am widdon Varroa mewn cwch gwenyn
Diolch i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion am y llun, Hawlfraint y Goron.*



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

I gael gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Cymru

Tir, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2290

E-bost: GwynynMellach@llyw.cymru neu HoneyBeeHealth@gov.wales

Lloegr

Animal and Plant Health and Welfare
Defra
Room 11G35, York Biotech Campus, Sand Hutton
York
YO41 1LZ

Ffôn: 020 80261586

E-bost: BeeHealth.Info@defra.gov.uk

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cyflwyniad..... | 4 |
| Camau Gweithredu..... | 5 |
| Canlyniad 1 | 5 |
| Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw'r perygl o blâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy | |
| Canlyniad 2..... | 7 |
| Sgiliau a gallu/capasiti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn | |
| Canlyniad 3..... | 9 |
| Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn | |
| Canlyniad 4..... | 10 |
| Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth | |
| Geirfa..... | 13 |

Cyflwyniad

Cafodd Cynllun Gwenyn Iach 2030 ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020 gydag adolygiad o'r Cynllun Gwenyn Iach gwreiddiol a oedd mewn grym rhwng 2009 a 2019.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n troi'r pedwar canlyniad a ddisgrifir yng Nghynllun Gwenyn Iach 2030 yn gamau y gellid eu rheoli. Bydd rhanddeiliaid Iechyd Gwenyn yn gweithio gyda'i gilydd dros y deng mlynedd nesaf ar y camau hyn ac ar unrhyw rai eraill y gwelir bod eu hangen i wella iechyd gwenyn mêl yng Nghymru a Lloegr. Cafodd y Cynllun Gwenyn Iach newydd a'r cynllun gweithredu hwn eu datblygu gyda chymorth rhanddeiliaid iechyd gwenyn ac mae'r camau yn rhai y gall unigolion neu rhanddeiliaid ar y cyd â'r gymuned wenyndu ehangach yn ogystal â llywodraeth eu cymryd.

Y pedwar canlyniad yng Nghynllun Gwenyn Iach 2030 y byddwn yn gweithio i'w cyflawni yw:

1. Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw'r perygl o blâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy;
2. Sgiliau a gallu/capasiiti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn;
3. Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn; a
4. Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth

Cafodd rhai o'r camau a ddisgrifir ar y tudalennau a ganlyn eu nodi yn yr adolygiad o'r Cynllun Gwenyn Iach gwreiddiol. Cododd rhai o'r lleill yn nhräfodaethau'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn wedi hynny. Rydym wedi nodi pwy sydd i gymryd pob cam a'r amserlen ar gyfer ei gymryd. Bydd y cynllun newydd yn para 10 mlynedd ond caiff y cynllun gweithredu ei ddiweddarau bob rhyw 3 blynedd er mwyn gallu adolygu'n fras:

- (i) y camau fydd wedi'u cymryd;
- (ii) y camau sy'n cael eu cymryd;
- (iii) a oes angen camau newydd.

Rydym wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ddewis llinyn addas ar gyfer mesur llwyddiant er mwyn i ni allu monitro cynnydd pob cam a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu.

Mae llawer o bartneriaid Cynllun Gwenyn Iach 2030 eu hunain yn comisiynu ymchwil neu'n cyfrannu at ymchwil, a bydd hynny'n parhau, naill ai fel unigolion neu gydag eraill. Ond nid yw'r cynllun yn rhagweld y bydd ffynhonnell ariannol gytûn ar gael i'r perwyl hwn ond caiff syniadau a blaenoriaethau eu rhannu i greu rhaglen ymchwil ategol.

Camau Gweithredu

Canlyniad 1

Mesurau bioddiogelwch effeithiol a safonau hwsmona da, er mwyn cadw'r perygl o blâu a chlefydau mor fach â phosibl a thrwy hynny, gwneud poblogaethau gwenyn mêl yn fwy cynaliadwy

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|-----------------------|------------|--|-----------------------|---|
| Gwyliadwriaeth | 1 | Parhau i gynnal archwiliadau statudol ar sail risg gan ddefnyddio'r rheolau Coch/Ambr/Gwyrdd (CAG) diwygiedig i dargedu adnoddau archwilio'n effeithiol. | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adolygiad cyntaf Rhagfyr 2021 (blynyddol) |
| | 2 | Adolygiad ffurfiol o'r rheolau CMG i weld a oes modd eu gwneud yn fwy effeithiol | NBU | Cwblhau'r adolygiad cyntaf Mawrth 2024 (bob 3 blynedd) |
| | 3 | Adolygiad byr anffurfiol o'r rheolau CMG | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adolygiad cyntaf Rhagfyr 2021 (blynyddol) |
| | 4 | Adolygu sut y blaenoriaethir Ceisiadau am Gymorth gan Wenynwyr (COBs); ystyried deunydd sydd ar gael wrth y cwch i wenynwyr; pwyslais ar dystiolaeth ffotograffig; protocol posibl ar gyfer cyfeirio i BKA leol. | NBU/ BBKA/ WBKA | Cwblhau'r adolygiad Rhagfyr 2022 |
| | 5 | Ystyried sut i wella gallu gwenynwyr i adnabod clefyd y gwenyn | NBU/ BBKA/ WBKA | Cwblhau'r adolygiad Rhagfyr 2023 |
| | 6 | Parhau â'r cynllun gwirfoddol Cychod Sentinel i ddal chwilod bach y cwch mewn nythfeydd uchel eu risg. | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cyntaf Rhagfyr 2021 (blynyddol) |

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|---|------------|--|---------------------------------|--|
| Gwylidwriaeth | 7 | Adolygu defnyddioldeb y gymhareb darged o 2:1 Gwenynfeydd Sentinel Uwch i Bwyntiau Uchel eu Risg – ystyried dewisiadau eraill. | NBU | Cwblhau'r adolygiad Mawrth 2022 – rhoi canfyddiadau ar waith erbyn Mawrth 2023 |
| | 8 | Ystyried ffyrdd o gysylltu'n well ag aelodau cymdeithasau o ran adnabod plâu a chlefydau | BFA/BBKA/WBKA/NDB | Adroddiad erbyn Mawrth 2024 |
| Mesurau bioddiogelwch gwirfoddol | 9 | Adolygu'r Canllawiau Arferion Gorau a datblygu rhai newydd i lenwi bylchau | NBU | Cwblhau'r adolygiad Mawrth 2023 |
| | 10 | Datblygu gwybodaeth am y camau bioddiogelwch y gall pob gwenynwr eu cymryd, gan gynnwys prynu gwenyn o leoedd dibynadwy. | Defra/LIC/NBU/BBKA/WBKA/NDB/BFA | Cyhoeddi gwybodaeth Mawrth 2023 |
| | 11 | Gwella sgiliau gwenynwyr ar gyfer dal gwenyn sy'n heidio | BBKA/WBKA | Cyhoeddi cyngor erbyn Mawrth 2023 |

Canlyniad 2

Sgiliau a gallu/capasiti cynhyrchu gwell ymhlith gwenynwyr a ffermwyr gwenyn

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|---|------------|--|-------------|--|
| Y Cynllun Sicrwydd rhag Clefyd Gwenyn Mêl (DASH) Adeiladu ar lwyddiant DASH i gefnogi a hyfforddi ffermwyr gwenyn proffesiynol. | 12 | Cyhoeddi amodau aelodaeth DASH | NBU/BFA | Cyhoeddi erbyn Mawrth 2022 |
| | 13 | Rhestru niferoedd aelodau llwyddiannus DASH bob blwyddyn i gydnabod yn gyhoeddus lefelau cydymffurfio â mesurau bioddiogelwch. | NBU/BFA | Wrthi'n gwneud – adroddiad cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 14 | Cynnig DASH i achredu ymgeiswyr addas eraill sydd â >50 o gychod | NBU/BFA | Cynnig cyntaf Medi 2022 (blynyddol) |
| | 15 | Adolygu'r archwiliad o aelodau DASH | NBU/BFA | Adroddiad cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 16 | Ystyried sut i estyn a darparu hyfforddiant gloywi DASH | NBU/BFA | Cwblhau'r adolygiad Mawrth 2023 |
| | 17 | Treialu hyfforddiant ar-lein | NBU/BFA | Diwedd peilot Medi 2021 |
| | 18 | Adolygu cynllun DASH bob 3 blynedd (a yw'n rhoi gwerth am arian a budd i ffermwyr gwenyn) | NBU/BFA | Cwblhau'r adolygiad cyntaf Mawrth 2024 (bob 3 blynedd) |
| Rhaglenni hyfforddi | 19 | Annog gwenynwyr i basio'r asesiad sylfaenol (neu ei gyfatebol) o fewn 5 mlynedd ar ôl dechrau gwenyna. | BBKA/WBKA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 20 | Recriwtio digon o aseswyr i allu cynnig asesiad sylfaenol i bob gwenynwr o fewn ei 5 mlynedd cyntaf. | BBKA/WBKA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 21 | Nodi pynciau addysgu hanfodol Cynllun 2030 erbyn haf 21 | BHAF | Cytuno ar bynciau hanfodol Medi 2021 |

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|----------------------------------|------------|---|----------------------------------|---|
| Rhaglenni hyfforddi | 22 | Datblygu rhaglenni hyfforddi sy'n hygyrch a phriodol i amrywiaeth eang o wenywyr a sut i'w cyflwyno. | BBKA/WBKA/ NDB | Datblygu erbyn Medi 2022 |
| | 23 | Datblygu pecyn cyn dechrau gwenyna – beth sydd angen ei wybod/ystyried cyn cael nythfa | NBU/WBKA/ BBKA | Darparu pecyn Rhagfyr 2022 |
| | 24 | Denu pobl i fod yn addysgwyr ar wenyyna yn y dyfodol. | BBKA/WBKA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 25 | Datblygu rhaglen o leiaf o 5 cyflwyniad ar-lein bob blwyddyn, ar gael i bob gwenynwr. | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 26 | Mentora – datblygu fframwaith y gall cymdeithasau lleol ei ddefnyddio i greu cynlluniau. Adlewyrchu arferion gorau; yn gallu ei roi ar waith yn lefel ehangach pan ddaw adnoddau ar gael. | Defra/LIC/ BHAF/ gweithgor | Fframwaith yn barod Rhagfyr 2021 |
| | 27 | Adolygu'r opsiynau ar gyfer pecyn hyfforddiant i wenywyr proffesiynol, fel cynllun datblygu proffesiynol parhaus. | BFA | Cwblhau'r adolygiad Rhagfyr 2022 |
| Cynllun Prentisiaid y BFA | 28 | Cynnal Cynllun Prentisiaeth Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn. | BFA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd Mawrth 2022 (blynyddol) |

Canlyniad 3

Gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn sylfaen ar gyfer gweithredu i gynnal iechyd gwenyn

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|---|------------|--|--------------------|---|
| Defnyddio technoleg i hyrwyddo iechyd gwenyn | 29 | Adolygu ffyrdd o ddefnyddio technoleg i adnabod a darganfod plâu a chlefydau'n well. | Defra/LIC/NBU/Fera | Adolygiad cyntaf Rhagfyr 2022 (bob 3 blynedd) |
| | 30 | Adolygu deunydd ar-lein yr Uned Wenyn Genedlaethol | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Cydweithio ar Ymchwil | 31 | Ystyried sefydlu plattform rhannu gwyddoniaeth ar-lein. | Defra/LIC/BHAF | Adroddiad dichonolrwydd Mawrth 2024 |
| | 32 | Trafod blaenoriaethau ymchwil mewn cyfarfod gwyddonol blynyddol ac yng nghyfarfodydd rheolaidd y BHAF. | BHAF | Cyfarfod treialu Chwefror 2022 |
| Cyfathrebu gwyddoniaeth gadarn | 33 | Rhaeadru gwybodaeth i wenydwyr, ffermwyr gwenyn ac addysgwyr gwenyna; dathlu Diwrnod Gwenyn y Byd bob blwyddyn trwy gyfathrebu am y wyddoniaeth ddiweddaraf. | BHAF | Cyfathrebu cyntaf Mai 2022 (blynyddol) |
| Asesiad o'r risg i iechyd gwenyn | 34 | Adolygiad o asesiad risg Cacynen Asia a Chwilen Fach y Cwch. | Defra/LIC/NBU/Fera | Adolygu PRAs Mawrth 2023 |

Canlyniad 4

Mwy o gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|---|------------|--|-----------------------------|--|
| Cysylltu â BeeBase | 35 | Gwneud BeeBase yn fwy hylaw i wenywyr trwy symleiddio diweddariadau. | NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Hysbysu gwenywyr am eu hymrwymiaidau cyfreithiol | 36 | Llunio tudalen newydd ar BeeBase am ofynion cyfreithiol; diweddaru gwybodaeth yn ôl y gofyn; canllawiau arferion gorau. | NBU/Defra/LIC | Cyhoeddi tudalen Rhagfyr 2021 – diweddaru taflenni Mawrth 2023 |
| Cynyddu cyfleoedd i rannu arferion gorau | 37 | Helpu i rannu gwybodaeth ymhlith grwpiau lleol am wenywyr'n gyffredinol ac ystyriaethau masnachol. | BBKA/WBKA/BFA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 38 | Helpu i roi gwybod am yr hyfforddiant, cyngor a chanllawiau diweddaraf | BBKA/BFA/WBKA/BDI/NDB | Wrthi ers diweddaru'r canllawiau – adroddiad cynnydd cyntaf Mehefin 2022 (blynyddol) |
| | 39 | Adolygu'r ystod o gyngor ar arferion gorau; gweld bylchau, lleihau dyblygu a rhesymoli o fewn y canllawiau hyn a deunydd arall; datblygu canllawiau i lenwi'r bylchau. | NBU/BHAF | Wrthi'n gwneud – y deunydd cyntaf ar gael Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 40 | Datblygu taflen am niferoedd gwenywyr a faint o fwyd sydd ar gael i wenywyr. | Defra/LIC/NBU/NPS/BBKA/WBKA | Mawrth 2022 |
| Cofnodion BeeBase | 41 | Ymchwilio i ffyrdd rhwydd i wenywyr ddiweddaru gwybodaeth am wenywyr yn y maes/cwch, a'u hannog i'w defnyddio. | NBU | Adroddiad dichonolrwydd Mawrth 2024 |

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|--|------------|--|-------------------|--|
| Datblygu Proffesiynol | 42 | Cefnogi hyfforddiant/deunydd/digwyddiadau datblygu proffesiynol i ffermwyr gwenyn. | BFA/NBU | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Deall amrywiaeth a hygyrchedd o ran gwenyna | 43 | Holl gymdeithasau partner i annog aelodau a gwenynfeydd i gofrestru ar BeeBase. | BHAF | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 44 | Hyrwyddo mentora/cefnogaeth i wella sgiliau gwenyna a chreu cymuned gynhwysol gefnogol (cysylltiad â Cham 26) | BBKA/WBKA/BFA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| | 45 | Cofnodi gwybodaeth am amrywiaeth i ddeall a oes angen i'r gymuned wenynd wneud rhywbeth i fod yn fwy amrywiol a chynhwysol. | BHAF | Wrthi ers Mawrth 2022 – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2023 (blynyddol) |
| | 46 | Trosglwyddo data am aelodaeth cymdeithasau (“eR2”) i BeeBase rhag bwydo'r un data fwy nag unwaith ac i wneud y rhestr “Current Beekeeper” yn fwy cywir. | NBU/BDI/BBKA/WBKA | Lansio yn Awst 2023 |
| Gwella'r hyn a gynigir ar-lein | 47 | Hyrwyddo a pharhau i nodi a gwella cyfleoedd i ddysgu, a gwneud y gorau o ddysgu ar-lein. | BHAF | Wrthi ers dechrau'r cynllun - adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Cynyddu cyfleoedd i rannu arferion gorau | 48 | Diweddarau a hyrwyddo taflen NFU 'Farming for bees', sy'n rhoi cyngor i ffermwyr ar ddarparu bwyd i wenyn, safleoedd gwenynfeydd ac arferion da wrth ddefnyddio pryfladdwyr; adolygu'r cyngor ar ôl ymgynghori ag aelodau BHAF | NFU | Diweddarau'r daflen Rhagfyr 2021 |
| | 49 | Ystyried beth sy'n rhwystro'r defnydd o BeeConnected ar-lein i gysylltu gwenynwyr a ffermwyr, rhoi gwybod i wenynwyr pan fydd ffermwyr y gymdogaeth yn gwasgaru pryfladdwyr. | NFU | Hydref 2021 |

| Thema | Rhif y Cam | Cam Gweithredu | Partneriaid | Cyfnod ac adroddiad |
|---|------------|---|-------------|--|
| Hyrwyddo mesurau ar ffermydd gwenyn mêl | 50 | Gweithio gyda phartneriaeth Championing the Farmed Environment (CFE) i hyrwyddo mesurau ar ffermydd er lles gwenyn mêl. | NFU | Wrthi ers dechrau'r cynllun - adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Gweithio gyda phartneriaid yn Ewrop | 51 | Gweithio gyda Copa-Cogeca i gynrychioli ffermwyr gwenyn ar lefel Ewropeaidd | NFU/BFA | Wrthi ers dechrau'r cynllun – adroddiad cynnydd cyntaf Mawrth 2022 (blynyddol) |
| Diweddarau'r Fforwm Cyngori ar lechyd Gwenyn | 52 | Diweddarau'r Cylch Gwaith | NBU | Cwblhau diweddarau Rhagfyr 2021 |
| | 53 | Adolygu aelodaeth y Fforwm | Defra/LIC | Cwblhau'r adolygiad Rhagfyr 2021 |
| | 54 | Ystyried agendâu thematig a/neu gyfarfodydd blynyddol arbenigol i drafod pethau'n fanwl. | BHAF | Gweithredu Rhagfyr 2021 |
| | 55 | Adolygu fformat adroddiad uchafbwynt | NBU | Cwblhau'r adolygiad Rhagfyr 2021 |

Geirfa

| | |
|----------|--|
| BBKA | Cymdeithas Gwenynwyr Prydain |
| BDI | Bee Diseases Insurance Limited |
| BFA | Cymdeithas Ffermwyr Gwenyn |
| BHAF | Fforwm Cynghori ar Iechyd Gwenyn |
| DASH | Y Cynllun Sicrwydd rhag Clefyd Gwenyn Mêl |
| Defra | Department for Environment, Food and Rural Affairs |
| Fera | FERA Science Ltd. |
| HBP 2030 | Cynllun Gwenyn Iach 2030 |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| NBU | Uned Wenyn Genedlaethol |
| NDB | Diploma Cenedlaethol mewn Gwenynna |
| NFU | Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr |
| NPS | Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Pryfed Peillio |
| PRA | Asesiad Risg Plâu |
| WBKA | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |